Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
South Wales Police and Crime Commissioner

Y Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys i Oedolion

Menywod mewn Cyfiawnder

Mehefin 2024

Trosolwg

Panel thematig oedd y Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys i Oedolion a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2024 a oedd yn edrych yn benodol ar achosion yn cynnwys menywod a oedd yn cyflawni troseddau. Roedd pwrpas deuol i'r panel hwn. Craffodd y panel ar yr achosion i bennu a gafodd y datrysiad ei ddefnyddio'n gywir. Yn ogystal, craffodd ar y prosesau a ddefnyddiwyd a'r safbwyntiau a fynegwyd wrth wneud penderfyniadau gan ganolbwyntio ar rywedd i archwilio a ddilynwyd y gweithdrefnau cywir ac a yw menywod yn cael canlyniad addas o ansawdd uchel. Cynhaliwyd ymarfer cwmpasu archwiliad dwfn i bennu'r llinell cwestiynu gywir i'w dilyn yn y panel a rhannwyd y wybodaeth ddilynol ag aelodau'r panel cyn y cyfarfod.

Ochr yn ochr â phennu a ddefnyddiwyd y datrysiad yn briodol, nod y panel thematig oedd cadarnhau'r canlynol:

1. a gafodd pob achos ei atgyfeirio/a gynigiwyd atgyfeiriad at Wasanaethau Menywod?

2. a oedd rhesymeg glir i gefnogi unrhyw achosion na chawsant eu hatgyfeirio at Wasanaethau Menywod?

3. a yw bodolaeth Gwasanaethau Menywod penodol yn effeithio ar y broses gwneud penderfyniadau?

Cefndir

Cydnabyddir yn eang bod menywod sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Gall y ffactorau sy'n arwain menywod i droseddu wahaniaethu'n sylweddol i'r rhai sy'n arwain dynion i droseddu. Er mwyn cydnabod hyn, derbynnir mai'r ffordd orau o reoli menywod sy'n troseddu yw ystyried anghenion a chefndiroedd gwahanol menywod.

Adolygiad o fenywod yn y system cyfiawnder troseddol sy'n agored i niwediau penodol yw **Adroddiad Corston**, a gynhaliwyd gan y Farwnes Jean Corston yn 2006. Cafodd yr adolygiad ei ysgogi gan hunanladdiadau trychinebus chwe menyw yng Ngharchar Ei Fawrhydi Styal.
Nododd y Farwnes Corston ei bod hi'n bryd cael newid radical yn y ffordd roedd menywod yn y system cyfiawnder troseddol yn cael eu trin. Roedd hyn yn berthnasol i'r rhai sy'n troseddu ond hefyd i'r rhai sy'n wynebu risg o droseddu. Roedd argymhellion adroddiad Corston yn cynrychioli map trywydd tuag at y weledigaeth honno.
Gwnaeth yr adolygiad 43 o argymhellion ar driniaeth menywod yn y system cyfiawnder troseddol, gan ddadlau o blaid "the need for a distinct radically different, visibly-led, strategic, proportionate, holistic, woman-centred, integrated approach".

Ystyrir bod adroddiad Corston yn arloesol am ei fod yn nodi nodweddion menywod sy'n troseddu a'u hanghenion, sy'n aml yn gymhleth iawn, mewn ffordd mor glir a grymus.

Y Cyd-destun Cenedlaethol

Mae **Cynllun Cyflawni Strategaeth Troseddau Benywaidd 2022-2025** y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cefnogi mabwysiadu dull penodol i fenywod, sy'n ymateb i drawma wrth ymdrin â throseddau gan fenywod.
Mae'n tynnu sylw at 4 blaenoriaeth allweddol i leihau troseddau gan fenywod:

1. llai o fenywod yn dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder troseddol ac yn aildroseddu
2. llai o fenywod yn cael dedfryd fer o garchar gyda chyfran uwch yn cael eu rheoli'n llwyddiannus yn y gymuned
3. canlyniadau gwell i fenywod mewn carchar
4. amddiffyn y cyhoedd drwy ganlyniadau gwell i fenywod ar ôl eu rhyddhau

Gellir defnyddio Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys yn ardal De Cymru i sicrhau bod menywod (lle y bo'n briodol) yn ymatal rhag ymuno â'r system cyfiawnder troseddol ac aildroseddu. Roedd yr achosion a drafodwyd ym mhanel craffu Mehefin 2024 i gyd yn gymwys am ymyrraeth Dull System Gyfan i Fenywod. Roedd y gwasanaeth hwn yn cynnig arweiniad a chyngor, yn cyfeirio ac yn atgyfeirio, yn ogystal â darparu cymorth ymarferol ac emosiynol. Roedd anghenion a nodwyd yn cael eu diwallu drwy ymyriadau un i un, grŵp ac ar-lein. Roedd pwyslais ar gytuno ar gynlluniau unigoledig a'u dilyn er mwyn i fenywod allu manteisio i'r eithaf ar y cymorth sydd ar gael yn ystod eu cyfnod gyda'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth hefyd yn helpu menywod i ddeall eu cryfderau, goresgyn rhwystrau ac achub ar gyfleoedd er mwyn iddynt allu symud ymlaen mewn bywyd.

Mae dull "system gyfan" yn canolbwyntio ar:

1. Atal ac Ymyrryd yn Gynnar
2. Llysoedd a dedfrydu
3. Datrysiadau yn y gymuned
4. Dalfa ac Ailsefydlu
5. Ymchwil a Gwerthuso

Ym mis Ebrill 2024, ailgomisiynwyd y Dull System Gyfan fel rhan o Wasanaeth Cymru'n Un. Darperir y gwasanaeth hwn gan Ymddiriedolaeth Nelson a'i phartneriaid; bthechange, St Giles Cymru, Pact a Media Academy Cymru (MAC).

Bydd menywod sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth yn cael eu cefnogi i wneud newidiadau cadarnhaol a chynaliadwy yn eu bywydau gyda:

- chymorth un i un cyfannol drwy wasanaeth ystyriol o drawma, sy'n ymateb i rywedd
- cymorth emosiynol ac ymarferol un i un i fenywod, sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion
- gwasanaeth allgymorth
- cymorth gyda dillad, bwyd, nwyddau ymolchi ac anghenion sylfaenol.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phlismona yng Nghymru yn gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder ar Lasbrintiau ar gyfer gwasanaethau troseddwyr benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid. Mae'r **Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd yng Nghymru** yn gweithio i greu datrysiadau

cynaliadwy yn y gymuned i gadw menywod a chymunedau yn ddiogel ac yn rhydd o ymddygiad troseddol.

Cynllun Heddlu a Throseddu De Cymru 2023-2027

Mae'r cynllun hwn yn nodi'r blaenoriaethau y bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif yn eu herbyn wrth iddynt barhau â'u taith ar y cyd tuag at gymunedau diogel a hyderus ledled De Cymru. Un o'r cyd-flaenoriaethau yn y cynllun hwn yw:

"Cynllunio ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol drwy ddull cydgysylltiedig o atal niwed, ymyrryd yn gynnar â throseddwyr ifanc a benywaidd, cynnwys pobl a thorri cylchoedd rhwng cenedlaethau gyda'n gilydd."

Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i drawsnewid y system gyfiawnder yng Nghymru i fenywod a phobl ifanc, gan roi'r glasbrintiau sy'n amlinellu'r newidiadau angenrheidiol ar waith. Bydd cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar, gan ddargyfeirio pobl o droseddau, yn cael eu hehangu drwy adeiladu ar y Rhaglen Fraenaru i Fenywod a'r Gwasanaeth Ymyrryd yn Gynnar i Bobl 18 i 25 oed (sydd bellach wedi'i ailgomisiynu fel Gwasanaeth Cymru'n Un) er mwyn gwella cyfleoedd bywyd.

Gweler y dolenni isod:

The Corston Report: the need for a distinct, radically different, visibly led, strategic, proportionate, holistic, woman-centred, integrated approach

Cynllun Cyflawni Strategaeth Troseddau Benywaidd 2022-25 (publishing.service.gov.uk)

glasbrint-ar-gyfer-troseddwyr-benywaidd.pdf (llyw.cymru)

https://www.comisiynydddecymru.org.uk/wp-content/uploads/2024/03/crp005-crime-plan-2023-welsh-digital-aw.pdf

Canlyniadau Ymarfer Cwmpasu Archwiliad Dwfn

Roedd yr ymarfer cwmpasu archwiliad dwfn yn cynnwys ymgynghori â Gwasanaethau Cyfiawnder Heddlu De Cymru (HDC).
Nodir canlyniadau'r ymgynghoriadau isod:

- Nid oes arweiniad penodol ar ddull yr heddlu o ymdrin â chyflawnwyr benywaidd. Cyfeirir at y Matrics Difrifoldeb a bydd y Swyddog cyfrifol yn gwneud y penderfyniadau fesul achos.
- Nid oes swyddogion dynodedig ar gyfer troseddwyr benywaidd yn HDC, mae gan bawb ffocws ar fenywod.
- Caiff swyddogion yr heddlu hyfforddiant ar y model Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys 2 haen sy'n cynnwys gwybodaeth am y Dull System Gyfan i Fenywod.
- Mae'r hyfforddiant yn nodi y dylai menywod 18+ oed gael eu hatgyfeirio at yr ymyriad i fenywod cyn cynnal ymyriadau eraill, os ystyrir bod hynny'n briodol.
- Darparwyd gwybodaeth am y Dull System Gyfan i fenywod a atgyfeiriwyd at y gwasanaeth.

Data a Gyflwynwyd yn y Panel gan Wasanaethau Cyfiawnder HDC

Ystyriodd y panel ddata ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys o fis Ionawr 2023 i fis Rhagfyr 2023. Yn ystod y cyfnod hwn, arestiwyd 5,134 o fenywod 18+ oed. Roedd 282 o'r menywod hyn yn dod o grŵp ethnig leiafrifol ac ni chafodd ethnigrwydd ei gofnodi ar gyfer 350 ohonynt.

Y tair prif drosedd a nodwyd oedd:

- Dwyn
- Trais heb anaf
- Trais ag anafiadau

Roedd y data yn cynnwys gwybodaeth am Ddatrysiadau Cymunedol, Rhybuddion a Rhybuddion Amodol. Cafwyd 473 o Ddatrysiadau Cymunedol a 97 Rhybudd (yr oedd 65 ohonynt yn Rhybuddion Amodol).
Mae prif ganfyddiadau'r adroddiad yn cynnwys y canlynol:

- Ni chaiff rhywedd unigolion ei gofnodi fel mater o drefn ac mae'r data'n dangos o fewn 114,176 o achosion sy'n cwmpasu canlyniadau pob oedolyn o fewn yr un cyfnod, nad yw rhywedd 98,695 ohonynt wedi'i gofnodi. Felly, daw cafeat gyda'r data yn sgil materion sy'n ymwneud â chofnodi ac ansawdd y data.
- Nododd adolygiad o ddata ar y math o droseddau mai dwyn oedd y drosedd fwyaf cyffredin, ond dangosodd hefyd fod troseddau yn erbyn cwnstabliaid yr heddlu ar gynnydd.
- Nodwyd nad oedd ethnigrwydd yn cael ei gofnodi fel arfer wrth gyflwyno datrysiadau cymunedol. Priodolwyd hyn i'r defnydd o ddatrysiadau ar y stryd lle mae'r broses gofnodi yn llawer gwannach.
- Adolygwyd cydymffurfiaeth â datrysiadau cymunedol ac atgyfeiriadau dilynol a nodwyd bod rhyw 16% o fenywod heb ymgysylltu â'r Dull System Gyfan i Fenywod fel rhan o'u datrysiad cymunedol. Ni wnaeth rhyw 23% o'r rhai a gafodd rybudd amodol gydymffurfio â gofynion eu rhybudd amodol.
- Roedd data atgyfeirio a gafwyd gan y tîm Cyfnewid yn nodi er bod cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud i atgyfeirio menywod at y Dull System Gyfan, roedd atgyfeiriadau yn parhau i gael eu gwneud at raglenni eraill yn lle hynny neu nid oedd unrhyw atgyfeiriadau'n cael eu gwneud o gwbl.
- Cafodd 9 menyw ail ddatrysiad y tu allan i'r llys o fewn 2 flynedd.

Crynodeb o Arsylwadau'r Panel a dysgu Sefydliadol

Arsylwadau'r panel	Dysgu sefydliadol
Cynnydd yn nifer y bobl ifanc ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) sy'n dod i sylw'r heddlu. Ni chafodd marciwr ei ychwanegu mewn un achos.	Mynegodd HDC bwysigrwydd gosod marciwr ar yr unigolyn a chydnabu bwysigrwydd atgyfeirio at wasanaethau oedolion ifanc. Ychwanegwyd marciwr yn syth ar ôl y panel.

Collwyd nifer o gyfleoedd i atgyfeirio at y Dull System Gyfan. Pwysleisiodd aelodau yr angen i wneud atgyfeiriadau at y Dull System Gyfan i Fenywod i sicrhau bod menywod yn cael cymorth cyfannol wedi'i dargedu.	Bydd yr ap newydd sy'n cael ei ddatblygu yn helpu i nodi llwybrau atgyfeirio ac yn goresgyn rhai o'r materion/oedi cyfredol a nodwyd.
Atgyfeiriad at gwrs ymwybyddiaeth alcohol yn unig i fenyw ag anghenion cymhleth lluosog.	Cydnabu aelodau'r panel y byddai atgyfeiriad at y Dull System Gyfan wedi bod yn fwy priodol, ac fel uchod, dylai'r ap ddatrys y materion hyn.
Enghraifft wych o fenyw yn y ddalfa yn cael ei gweld gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a chynhaliwyd asesiad hunan-niweidio i sicrhau ei bod yn addas i'w rhyddhau.	Sicrhau bod yr arfer cadarnhaol hwn i'w weld ar draws yr Unedau Rheoli Sylfaenol.
Gwella ansawdd yr amodau sydd ynghlwm wrth rybuddion amodol e.e. archwiliwyd achos lle awgrymodd aelodau'r panel y byddai gwaharddiad am gyfnod o'r ardal lle digwyddodd y drosedd wedi bod yn briodol	Mae gwella ansawdd yr amodau wedi'i gynnwys yng nghynllun y Gwasanaethau Cyfiawnder eleni.
Cydnabuwyd y gall y cyfathrebu rhwng yr hybiau a'r ddalfa fethu.	Mae'r Gwasanaethau Cyfiawnder wedi cynnwys hyn (a bydd yn parhau i'w gynnwys) yn eu hyfforddiant gloywi am fod angen rhoi mwy o sylw i'r rhesymeg honno dros wneud penderfyniadau er mwyn gwneud y penderfyniadau cywir.
Roedd rhai achosion yn ddioddefwyr cam-drin domestig. Holwyd a gawsant gynnig cymorth tra'r oeddent yn y ddalfa.	Cadarnhaodd HDC fod cymorth wedi cael ei gynnig. Cadarnhaodd un fenyw ei bod hi eisoes yn cael cymorth gan wasanaeth. Mae hwn yn arfer da sy'n amlwg ym mhob dalfa.

Crynodeb

Bydd dysgu sefydliadol a amlygir uchod yn cael ei adrodd yn ôl i swyddogion unigol a'u goruchwylwyr er mwyn adlewyrchu a hysbysu penderfyniadau ar gyfer achosion i'r dyfodol. Bydd yr adborth yn cael ei rannu ym mhob rhan o'r heddlu at ddibenion dysgu. Yn cyfateb i hynny, bydd enghreifftiau o waith gwych yn cael eu darparu i'r swyddogion sydd ynghlwm a'u cynnwys yn yr hyfforddiant.

Mae materion parhaus o ran cofnodi data demograffig ond mae HDC wedi rhoi sicrwydd i'r panel y bydd y rhain yn cael eu datrys drwy greu ap newydd a fydd ar gael i bob swyddog.

Casglodd y panel fod cyfleoedd wedi'u colli i atgyfeirio nifer o fenywod at y Dull System Gyfan ac mae hyn yn golygu bod cyfle wedi'i golli i asesu a diwallu eu hanghenion cyfannol. Mynegodd y panel y dylai pob menyw gael ei hatgyfeirio at y gwasanaeth ac y dylai'r staff benderfynu ar y cam gweithredu gorau ar ôl cwblhau asesiad.